

# CYNLLUN BUSNES 2019-2021



# DIOGELU'R DYFODOL

Mae ein gwaith yn denu pobl i mewn i'r diwydiant adeiladu ac yn cefnogi hyfforddiant a datblygiad y gweithlu adeiladu. Mae'r cynllun hwn yn amlinellu rhywfaint o'n heffaith dros y flwyddyn ddiwethaf ac yn cynnwys yr hyn sy'n dod nesaf.

Llynedd, fe wnaethom fuddsoddi arian lefi yn gwneud adeiladu yn fwy gweladwy gan arddangos posibilïadau gyrfa ynddo. Fe wnaethom ddarparu cyllid i ehangu'r gronfa o ymgeiswyr mewn grwpiau anodd eu cyrraedd a chynyddu cymorth i'ch buddsoddiadau mewn prentisiaid. Fe wnaethom ddefnyddio ein hymchwil a'n perthnasoedd i ddylanwadu ar lywodraethau lleol a chenedlaethol a gweithio gyda chyflogwyr i osod safonau hyfforddi a chymwysterau, tra'n gwneud cyflawniadau hyfforddiant yn weladwy. Hefyd fe wnaethom dargedu anghenion brys, megis hyfforddiant iechyd meddwl a chymorth ar gyfer y seilwaith asesu, fel bod cyllid lefi'n sicrhau darpariaeth hyfforddiant ddiogel sydd â'r angen mwyaf.

## Cynnydd diriaethol

Ond nid ydym yn hunanfodlon. Bydd y cynllun hwn yn dangos sut y bydd CITB yn gwneud

gwahaniaeth sylweddol a mesuradwy o ran parodrwydd safle, cynyddu amrywiaeth a niferoedd prentisiaethau, gwella'r gyfradd drosi o ddysgu i gyflogaeth, a darparu hyd yn oed mwy o gymorth i wneud hyfforddiant yn symlach i gyflogwyr bach a micro.

Rwyf hefyd wrth fy modd i ddweud y byddwn eleni yn lansio ymgyrch gyrfaoedd sylweddol a radicalaidd, gan helpu i chwalo rhwystrau a newid agweddau tuag at yrfaedd adeiladu, gan sicrhau bod gennych fynediad. i'r sgiliau adeiladu sydd eu hangen ar eich busnes.

Ar ôl gosod y sylfeini dros y flwyddyn ddiwethaf, dw i'n llawn cyffro am y flwyddyn i ddod. Gyda'n gilydd byddwn yn gwneud pethau gwych.

*Sarah*

Yr eiddoch,  
**Sarah Beale**  
Prif Weithredwr

## GOSOD Y SYLFEINI

Fe wnaeth ein cynllun 2018/19 nodi'r hyn roeddem yn bwriadu ei gyflawni drwy gydol y tair blynedd roedd yn eu cwmpasu. Roedd hefyd yn cynnwys yr hyn y byddem yn ei wneud i ddiwygio CITB i'ch cefnogi yn well yn y dyfodol ac rydym wedi bod yn brysur yn bwrw ymlaen â hynny. Ac er ein bod yn gwybod bod y rhan hon o'r cynllun yn canolbwyntio ar sut yr ydym ni, fel sefydliad, wedi ein llunio fe wnaethom lawer o newidiadau cadarnhaol yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf sy'n werth eu nodi:

- Lanswyd y Cynllun Grantiau newydd, gan ddarparu mwy o gefnogaeth i brentisiaethau a chymwysterau a gwneud hyfforddiant sy'n benodol i adeiladu yn safon gydnabyddedig. Rydym yn gwybod bod gennym fwy i'w wneud i sicrhau ein bod yn cefnogi'r hyfforddiant sydd o'r angen mwyaf a byddwn yn mynd i'r afael â hynny ymhellach yn 2019/20.
- Cyfeiriadur Hyfforddiant Adeiladu a'r Gofrestr Hyfforddiant Adeiladu wedi'u lansio. Rydym yn gwybod nad ydynt yn gweithio'n union fel y'i bwriadwyd - yn 2019/20 byddwn yn mynd i'r afael â hynny.
- Gwerthwyd CPCS, ac rydym ar y llwybr i adael gweinyddu'r cynlluniau cardiau CSCS a CISRS, gan ddileu gwrthddrawiadau buddiannau ac yn golygu y gallwn ganolbwyntio ar yr hyn rydym yn y sefyllfa orau i'w wneud.
- Rydym ar y trywydd iawn gyda'r cynllun i werthu ein darpariaeth hyfforddiant ein hunain erbyn dechrau 2020 a byddwn yn sicrhau bod cyflenwad ac ansawdd yr hyfforddiant yn cael eu diogelu pan fyddwn yn gwneud hynny.
- Fe wnaethom allanoli ein swyddogaethau swyddfa gefn, sy'n rhoi'r gallu i ni gyrchu systemau gwell i'ch cefnogi.
- Rydym wedi sicrhau ein Prif Swyddfa newydd yn Peterborough. Pan fyddwn yn symud i mewn, yn ddiweddarach yn y flwyddyn, byddwn yn fwy hygyrch ac yn gallu darparu gwasanaeth mwy cyson gan y byddwn i gyd o dan un to.
- Fe wnaethom fynd i'r afael â phryderon ynghylch ein Llywodraethu, gan sefydlu Cynghorau newydd sbon ym mhob gwlad i gynghori'r Bwrdd. Ynghyd â chwe Ymddiriedolwr Bwrdd newydd sy'n lledaenu ehangder y profiad, rydym yn hyderus nad yw ein llywodraethu erioed wedi bod yn agosach at farn rhanddeiliaid.



# EIN CENHADAETH:

## Denu a chefnogi datblygiad pobl i adeiladu Prydain well.

Rydym yn denu pobl i weithio ym maes adeiladu ac yna'n cefnogi eu hyfforddiant gyda'r sgiliau a'r cymwysterau sy'n bwysig i chi. Dyma ein blaenoriaethau: Gyrfaoedd, Hyfforddiant a Datblygiad a Safonau a Chymwysterau.

### Rydym yn **DENU** pobl i ymuno â'r diwydiant adeiladu trwy ein blaenoriaeth **GYRFAOEDD**.

Ein nod yw y byddwch yn gweld cronfa dalent ehangach. Byddwn yn gwella'r ffordd rydym yn siarad am yrfaedd ym maes adeiladu, ehangu apêl ymuno y tu hwnt i grwpiau traddodiadol, strwythuro mentrau sy'n barod am waith, rhoi mwy o gefnogaeth i brentisiaethau, a gwella'r gyfradd drosi o Addysg Bellach i gyflogaeth.

Ni allwn wneud hyn ar ein pennau ein hunain - bydd angen i gyflogwyr chwarae eu rhan drwy hyrwyddo eu cwmnïau a darparu'r swyddi gwag sy'n trosi atyniad yn gyflogaeth.

### Rydym yn **CEFNOGI** datblygu pobl i adeiladu Prydain well trwy ein blaenoriaethau **HYFFORDDIANT A DATBLYGIAD** a **SAFONAU A CHYMWYSTERAU**.

Ein rôl ni yw sicrhau bod dull a chynnwys hyfforddi ac asesu yn bodloni eich anghenion, fel y bydd Safonau a Chymwysterau a ddefnyddir mewn hyfforddiant adeiladu yn gyson ac yn sicr.

Byddwn yn sicrhau bod yr hyfforddiant yn berthnasol, cyfredol a hygyrch. Bydd y Cyfeiriadur Hyfforddiant Adeiladu yn rhoi mynediad i chi at rwydwaith o ddarparwyr tra bydd y Gofrestr Hyfforddiant Adeiladu yn gadael i chi weld yr hyfforddiant sydd gan eich pobl.

**Yn sail i'n blaenoriaethau** mae ein rhaglen ymchwil eang, sy'n dyfnhau ein dealltwriaeth o heriau adeiladu. Trwy bartneriaethau â llywodraeth leol a chenedlaethol, rydym yn helpu i arwain buddsoddiad mewn sgiliau adeiladu fel blaenoriaeth.

**Mae ein hystod o gyllid** yn cefnogi cyflogwyr o bob maint i fuddsoddi mewn prentisiaethau a chymwysterau; mae'n cefnogi cyflogwyr llai i fuddsoddi mewn hyfforddiant sy'n benodol i gwmnïau ac yn buddsoddi mewn rhaglenni ar draws y diwydiant i fynd i'r afael â materion mawr fel darpariaeth gyrfaoedd a hyfforddiant.

Trwy ein gwaith, rydym yn anelu at helpu'r diwydiant adeiladu ym Mhrydain i gael ymagwedd gydnabyddedig, arloesol o safon fyd-eang, tuag at ddatblygu ei weithlu i gyflenwi ansawdd yn yr amgylchedd adeiledig.

# Gwranddo, dysgu ac ymateb. Nid yw erioed wedi bod yn bwysicach.

Er y gallai twf adeiladu fod yn arafu, mae prinder gweithwyr hyfforddedig a medrus o hyd. Bydd cyfyngiadau tebygol ar recriwtio gweithwyr mudol pan fydd y DU yn gadael yr UE yn cynyddu yr her.

Mae denu'r bobl briodol, buddsoddi mewn prentisiaethau a chanfod yr hyfforddiant cywir yn mynd yn fwy anodd. Mae mwy o gystadleuaeth gan sectorau eraill, costau cynyddol ac elw gwasgaredig yn ei wneud yn anoddach fyth.

Mae'r heriau'n gyson, ond hefyd mae ein gwaith wrth i ni ymgymryd â'r heriau hyn bob dydd. Dyma beth welwch chi yn y flwyddyn nesaf ...

# EIN CHWE MAWR

Mae'r rhaglen gweledigaeth 2020 yn ymwneud â sicrhau ein bod yn y sefyllfa orau i'ch cefnogi.  
Mae'n ein galluogi i fynd i'r afael â'ch heriau mwyaf hanfodol...

## Cyrchfan gyrfa

Yn 2018 fe wnaethom godi ymwybyddiaeth o adeiladu, gan gyrraedd dros 900,000 o bobl ifanc drwy ymgyrchoedd yn y cyfryngau cymdeithasol, a chefnogi digwyddiadau gyrfaedd ledled Prydain, gan hyrwyddo adeiladu i fwy na 120,000.

Ar ôl gosod y gwaith sylfaen yn 2018, yn 2019 byddwn yn lansio ymgyrch genedlaethol a fydd yn newid agweddau i ddenu ac ysbrydoli llawer mwy o recriwtiaid. Byddwn yn ei lansio mewn ffordd fesul cam wedi'i thargedu a dim ond pan fydd yr holl systemau angenrheidiol ar waith.

## Gweithlu sy'n barod i'r safle

Yn 2018 fe wnaethom lansio'r Gronfa Sgiliau Adeiladu, gan greu 26 o ganolfannau ar-lein o Gronfa Sgiliau Adeiladu Llywodraeth y DU. Rydym yn gwybod bod arnoch angen llawer mwy o ymgeiswyr sy'n barod am waith, felly, yn 2019/20, byddwn yn cefnogi creu 20 o ganolfannau dysgu ychwanegol ar y safle ledled Cymru, yr Alban a Lloegr wledig - rhyngddynt, byddant yn darparu 31,000 o unigolion sy'n barod am waith neu hyfforddedig yn y tair blynedd nesaf.

## Prentisiaethau cynyddol

Yn 2019 byddwn yn dechrau gweithgarwch a fydd, erbyn 2025, yn sicrhau cynnydd o 63% yn nifer y prentisiaid sy'n ymuno â'r diwydiant adeiladu a chynnydd o 110% yn amrywiaeth yr ymgeiswyr. Rydym eisoes wedi codi cyfraddau grant byddwn yn darparu cymorth ychwanegol ar gyfer teithio a chynhaliadaeth o fis Medi ymlaen, yn ogystal â lansio cynllun peilot i helpu busnesau bach a chanolig i gyflogi prentisiaid.

## Dysgwyr yn weithwyr

Yn 2018 helpodd ein hymgyrchoedd gyrfaoedd i fwy o bobl fynd ymlaen i gyrsiau adeiladu ond rydym yn gwybod bod mwy o bobl yn cael eu hyfforddi yn ein colegau nag sy'n ymuno â'r diwydiant. O 2019 byddwn yn gweithio gyda'n partneriaid addysg i ddyblu'r llif o ddim ond 9,000 yn awr, i 18,000 erbyn 2025.

Bydd Cynllun Peilot Gosod Briciau yn cychwyn y fenter hon ac yn gwella cyflogadwyedd dysgwyr ar gyrsiau gosod briciau. Os yn llwyddiannus, byddwn yn ehangu hyn i gynnwys galwedigaethau eraill. Byddwn hefyd yn gweithio ar lwybrau eraill o AB i gyflogaeth, gan gynnwys lefelau T yn Lloegr.

## Helpu busnesau bach a chanolig

Yn 2018 fe wnaethom helpu dros 1,400 o gyflogwyr bach a micro i gael cymorth hyfforddiant gwerth £6m. Yn 2019, byddwn yn ymestyn y Gronfa Sgiliau a Hyfforddiant i helpu cwmnïau Canolig eu maint, y rhai hynny sydd â hyd at 250 o weithwyr, ac yn parhau i fuddsoddi mewn cyflogwyr Bach a Micro drwy dyfu'r gronfa i £8m gan gyrraedd 1,900 o gwmnïau.

## Aseswyr

Yn 2019/20 bydd ein buddsoddiadau yn golygu y caiff 220 o aseswyr ychwanegol eu hyfforddi eleni, gan ychwanegu'r gallu i ddarparu 22,000 o gymwysterau galwedigaethol ychwanegol y flwyddyn. Byddwn hefyd yn cyllido sefydlu wyth canolfan asesu, gan ychwanegu gallu pellach i hyfforddi aseswyr.

# GWELLA DELWEDD, NEWID AGWEDDAU A DENU MWY O BOBL I'R DIWYDIANT ADEILADU TRWY EIN BLAENORIAETH GYRFAOEDD.

## Byddwn yn denu mwy o bobl i'r diwydiant adeiladu

Byddwn yn newid agweddu ac yn denu llawer mwy o recriwtiaid newydd drwy lansio ymgyrch radicalaidd, newydd, genedlaethol o fis Awst ymlaen. Wedi'i lansio fesul cam, byddwn hefyd yn sicrhau bod y systemau i'w chefnogi yn gywir cyn iddi ddechrau. Byddwn hefyd yn gweithio gyda chi a phartneriaid eraill i sicrhau bod cyfleoedd gwirioneddol ar gael i gefnogi'r diddordeb rydym yn ei gynhyrchu.

Byddwn yn parhau i gynnig cyfle unigryw i weld y tu ôl i'r llenni mewn safleoedd adeiladu byw mawr, swyddfeydd, ffatrioedd a chanolfannau hyfforddi ledled Cymru, Lloegr a'r Alban trwy ein cefnogaeth barhaus i Drysau Agored.

Byddwn yn cefnogi gwaith gyrfaedd lleol, a wneir gan gyflogwyr, trwy gyllid rhanbarthol Grŵp Hyfforddi, gan ddarparu cymorth hawdd ei gyrchu ar gyfer digwyddiadau gyrfaedd lleol a arweinir gan gyflogwyr.

Byddwn yn gwella ein gwasanaeth Llysgenhadon Adeiladu, gan sicrhau ei fod yn cefnogi mentrau eraill sydd eisoes yn digwydd ac yn cynorthwyo lle nad oes unrhyw beth arall yn bodoli.

## Byddwn yn arwain mwy o bobl at yrfa yn y diwydiant adeiladu

Byddwn yn cynyddu llif y bobl sy'n barod am waith, gan greu profiad gwaith a chyfleoedd hyfforddi sylweddol ar y safle er mwyn darparu 31,000 o unigolion sy'n barod am waith neu sydd wedi'u hyfforddi. Gwneir hyn drwy 26 o Ganolfannau Dysgu Cronfa Sgiliau Adeiladu a bydd yn cefnogi 20 o ganolfannau dysgu eraill ar y safle.

Byddwn yn cynyddu llif dysgwyr i mewn i adeiladu. Gan weithio gyda'n partneriaid mewn addysg, rydym yn bwriadu dyblu'r niferoedd sy'n trosi o gyrsiau adeiladu i swyddi adeiladu. Mae 9,000 yn gwneud y cam hwnnw nawr - erbyn 2025 bydd yn 18,000. Byddwn yn dechrau gyda chynllun peilot ar gyfer bricwyr, os yw'n gweithio byddwn yn ei ehangu i alwedigaethau eraill.

Er mwyn cefnogi'r ymgyrch gyrfaedd, byddwn yn parhau i adnewyddu Ewch i Adeiladu fel y bydd yn siop-un-stop ar gyfer gwybodaeth am yrfaedd adeiladu yn Lloegr. A byddwn yn ymchwilio i sut mae'n gweithio ochr yn ochr â, neu'n cefnogi My World of Work yn yr Alban a'r Gyfnewidfa Busnes Addysg: Gyrfa Cymru yng Nghymru.

Byddwn yn gweithio'n agos gyda'n partneriaid cyfarwyddyd gyrfaedd i sicrhau bod eu cyngor yn berthnasol, yn gyfredol ac yn helpu'r diwydiant adeiladu i sefyll ar wahân i sectorau eraill.

## Byddwn yn ehangu apêl gyrfa yn y diwydiant adeiladu

Byddwn yn agor haenau newydd o dalent i'r diwydiant, gan ddechrau gweithgarwch a chynlluniau peilot yn ystod hanner cyntaf 2019/20 i gynyddu amrywiaeth ymgeiswyr i brentisiaethau adeiladu o 110% erbyn 2025 (o 2,140 yn 2018/19 i 4,500 yn 2025).

Byddwn yn denu mwy o dalent o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol wrth i ni ddechrau gweithio gyda phartion llwyddiannus yn ein cronfa Llwybrau at Adeiladu.

Byddwn yn arddangos potensial gyrfa adeiladu i gynulleidfaedd ehangach trwy ein cystadleuaeth Adeiladu Sgiliau a phartneriaeth gyda WorldSkills UK. Byddwn hefyd yn gwneud Adeiladu Sgiliau yn fwy perthnasol i'r diwydiant modern trwy ddechrau cystadlaethau mewn dulliau adeiladu newydd ac arloesol.

**Rydym yn gwybod pa mor bwysig ydyw i fod yn glir ynglŷn â phryd y byddwn yn cyflenwi ein cynlluniau. Mae tudalen 10 yn dangos dyddiadau cyflenwi allweddol ac mae tudalen 12 yn amlinellu sut mae cyllid yn cael ei fuddsoddi ar draws y blaenoriaethau hyn a'r ymchwil, y cyllid a'r ymgysylltu sy'n eu cefnogi.**



# SICRHAU BOD SAFONAU A CHYMWYSTERAU YN DIWALLU EICH GOFYNION A BOD HYFFORDDI A DATBLYGU AR GAEL PRYD, LLE A SUT MAE CYFLOGWYR EU HANGEN.

## Cefnogi eich buddsoddiad mewn prentisiaid

Yn 2019 byddwn yn cynyddu cyfraddau ariannu cyffredinol ac yn rhedeg cynlluniau peilot sy'n canolbwyntio ar gefnogi busnesau bach a chanolig a chynyddu amrywiaeth. Bydd y rhain yn sicrhau cynnydd o 63% yn nifer y prentisiaid sy'n ymuno â'r diwydiant adeiladu a chynnydd o 110% yn amrywiaeth yr ymgeiswyr erbyn 2025.

Newidiodd diwygiadau prentisiaethau yn Lloegr y dirwedd hyfforddi, ond ar ddechrau'r flwyddyn dim ond llond dwrn o safonau arloesol oedd yn barod. Sefydlwyd grŵp i newid hyn, â'r nod o gael o leiaf 50 o arloeswyr newydd yn barod erbyn diwedd y flwyddyn. Ar y cyfrif diwethaf, roeddem wedi cyflawni 75 yn 2019/20.

Byddwn yn parhau â'n gwaith Safonau Prentisiaeth, gan gefnogi'r rhai hynny sydd â'r galw mwyaf â Sicrwydd Ansawdd ac Asesiad Pwynt Terfyn yn flaenoriaeth allweddol.

## Hyfforddiant y gallwch ymddiried ynddo

Byddwn yn creu dros 1,000 o safonau hyfforddi newydd gan greu meincnodau cyson, gan hybu ansawdd a chefnogi eu hargaeledd trwy gyfrwng y Cyfeiriadur Hyfforddiant Adeiladu.

Byddwn hefyd yn sicrhau bod gan y Cyfeiriadur Hyfforddiant Adeiladu'r sylw a'r systemau gweithio a fydd yn caniatáu i ni droi awtomeiddio ymlaen erbyn diwedd 2019/20.

Trefnir y bydd hyd yn oed mwy o hyfforddiant cydnabyddedig ar gael drwy'r Cyfeiriadur Hyfforddiant Adeiladu, trwy gytundebau â chyrrff dyfarnu cydnabyddedig fel UKATA, IOSH, NOCN ac eraill.

Byddwn yn parhau i gefnogi asesu, â chomisiynau pellach i gefnogi Seilwaith Asesu, gan gynnwys menter i fynd i'r afael â phroblem uniongyrchol ynghylch cyflenwi asesywyr yn yr Alban.

## Mwy o gefnogaeth i gyflogwyr llai

Bydd y ffaith ein bod yn ehangu'r Gronfa Sgiliau a Hyfforddiant yn cydgrynhoi ar lwyddiant 2018 â chynlluniau hyfforddi hirdymor i helpu 1,900 o gyflogwyr bach a micro ag £8m o gyllid. Yn 2020 byddwn yn ehangu'r gefnogaeth i gwmnïau o faint canolig sydd â llai na 250 o weithwyr.

## Mynd i'r afael â phrinderau penodol

Byddwn yn cynyddu'r cyflenwad o Reolwyr Safle a Goruchwylwyr trwy gomisiwn sy'n cael ei lansio ym mis Medi.

Byddwn yn mynd i'r afael â chefnogaeth ar gyfer hyfforddiant mewn Arweinyddiaeth a Rheolaeth, gan gytuno ar y fframwaith erbyn mis Gorffennaf a fydd wedyn yn cael ei ychwanegu at y cynllun grantiau.

Ym mis Medi byddwn yn lansio gweithredu ar y cyd â chyflogwyr i fynd i'r afael â phrinder Mecanigion Offer a nodwyd gan ein hymchwil leol, yn ogystal â chomisiwn i fynd i'r afael â phrinder Paentwyr ac Addurnwyr yn yr Alban.

## Cefnogi cynhyrchiant cynyddol

Nododd adroddiad ymchwil y llynedd, 'Datgloi dyfodol digidol y diwydiant adeiladu: Cynllun sgiliau ar gyfer y diwydiant', ble y gallem eich helpu i gyflwyno dulliau adeiladu mwy cynhyrchiol, fel oddi ar y safle neu ddylunio ar gyfer gweithgynhyrchu. Byddwn yn dechrau mynd i'r afael ag ef eleni, gan ddechrau gyda chomisiwn i helpu arweinyddwyr i baratoi ar gyfer yr heriau o gyflwyno dulliau modern i'w busnes, ac yna Fframweithiau Cymhwysedd Digidol.

Byddwn yn lansio comisiwn Arferion Caffael ym mis Ebrill i fynd i'r afael â rhai o heriau caffael hirsefydlog y diwydiant

Rydym yn gwybod pa mor bwysig ydyw i fod yn glir ynglŷn â phryd y byddwn yn cyflenwi ein cynlluniau. Mae tudalen 11 yn dangos dyddiadau cyflenwi allweddol ac mae tudalen 12 yn amlinellu sut mae cyllid yn cael ei fuddsoddi ar draws y blaenoriaethau hyn a'r ymchwil, y cyllid a'r ymgysylltu sy'n eu cefnogi.





# Deall heriau'n well.

**Mae ymchwil yn rhan allweddol o'n gweithgarwch ac yn hanfodol wrth helpu i lunio'r pethau a wnawn i gefnogi cyflogwyr. Fel sectorau eraill rydym yn defnyddio data i lywio ein cyllid comisiwn ac i arwain ein blaenoriaethau. Gall helpu diwydiant i ddeall yr hyn sy'n gweithio, adeiladu tystiolaeth rymus i ddylanwadu ar bartneriaid i gefnogi gwaith adeiladu, ac mae ein hadroddiadau sgiliau lleol yn sicrhau bod adeiladu yn cael ei flaenoriaethu yng nghynlluniau gwario llywodraeth leol. Mae llinell amser o'r adroddiad hwn ar dudalen 11 ac mae'n cynnwys:**

**Diwylliant, Ymddygiadau, a Gwerthoedd:**  
Eisoes yn mynd rhagddo i archwilio diwylliant ac ymddygiadau presennol yn y diwydiant a'u heffaith ar gyflogwyr a chyflogeion. Bydd hyn yn helpu i lunio'r fframwaith rheoli a chomisiynau goruchwylwyr safleoedd rydym yn eu datblygu ar hyn o bryd.


**Astudiaeth Ymfudo III: Parhau i fonitro a deall yr effaith y gallai Brexit a pholisi mewnfudo mwy cyfyngol yr UE ei chael ar recriwtio a chadw gwladolion nad ydynt o'r DU yn y diwydiant adeiladu.**

**Gwella Symudedd Cymdeithasol drwy Addysg:**  
Trwy werthuso a deall ysgogwyr presennol ac absennol ar gyfer symudedd cymdeithasol yn y diwydiant adeiladu ac amlygu cyfleoedd yn y sector i ddylanwadu ar a llywio ymgyrchoedd polisi a gyrfaoedd.

**Rheolwyr Milflwyddol: Datblygu'r Genhedlaeth Nesaf o Arweinwyr:**  
Nod yr astudiaeth hon yw deall rhwystrau i fynediad a chadw pobl ifanc 20-34 oed yn y diwydiant adeiladu, yn ogystal â chymhellion y rhai hynny yn y grŵp oedran hwn.

# UCHAFBWyNTIAU CYFLENWI DROS Y 12 MIS NESAF - DENU

Llinellau amser ar gyfer Gyrfaoedd



## PARHAUS:


Siop un stop ar gyfer gwybodaeth am Yrfaoedd trwy adnewyddiadau Ewch i Adeiladu. Ymgysylltu ag AB i gefnogi her gyfradd drosi a buddsoddi ymhellach mewn BL a galwedigaethau unwaith y bydd yr effaith yn hysbys.

Gwelliannau Llysgenhadon Adeiladu Partneriaethau gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau.

Hyrwyddo adeiladu trwy welliannau Adeiladu Sgiliau.

# UCHAFBWYNTIAU CYFLENWI DROS Y 12 MIS NESAF - CEFNOGI

Llinellau amser ar gyfer Safonau a Chymwysterau a Hyfforddiant a Datblygiad



## PARHAUS:

Ehangu maint yr hyfforddiant safonedig drwy ryddhau safonol ar gyfer diwrnodau hyfforddiant hyd byr.


Cefnogi argaeledd safonau hyfforddiant trwy ddiwrnodau hyfforddiant safonol Trailblazer.

# BUDDSODDI EICH LEFI: 2019/20 I 2021/22

INCWM LEFI A CHYFRANIAD NET O WEITHGARWCH ARALL

COST GWEITHREDU'R LEFI A SYSTEMAU CYLLIDO GAN ADAEL CYLLID AR GAEL I'R DIWYDIANT

BUDDSODDI'R CYLLID SYDD AR GAEL



# TRACIO EIN HEFFAITH

	Dangosydd Perfformiad Allweddol	2019/20	2020/21	2021/22	NEWID CRONNUS 2018/19   2021/22
01	Gwelwyd CITB fel sefydliad credadwy ag enw da yn ychwanegu gwerth i'r Diwydiant	50%+ve 17% -ve 33% net	56%+ve 15% -ve 38% net	56%+ve 13% -ve 43% net	<b>+15% o bwyntiau</b>
02	Bod yn gyfarwydd ag ymgyrchoedd a lefel ffafrio gyrfaoedd (pobl ifanc, dylanwadwyr, addysgwyr)	60%	63%	66%	<b>+7% o bwyntiau</b>
03	Lefel ffafrio ag ymgyrchoedd a lefel ffafrio gyrfaoedd (pobl ifanc, dylanwadwyr, addysgwyr)	66%	68%	70%	<b>+8% o bwyntiau</b>
04	Dywed cyflogwyr fod cronfa dalent sy'n ddigonol i ddiwallu angen recriwtio'r diwydiant	30%	32%	35%	<b>+12% o bwyntiau</b>
05	Dywed cyflogwyr y gallant gyrchu'r hyfforddiant sydd arnynt ei angen mewn modd amserol	40	50%	60%	<b>+24% o bwyntiau</b>
06	Cynnydd mewn dechreuadau prentisiaeth yn y Sector Adeiladu, Cynllunio a'r Amgylchedd Adeiledig (Lloegr yn unig - o'r Cynllun Sector)	22,000	25,000	30,000	<b>+7,360</b>
07	Mae cyflogwyr yn credu bod cynnwys a dull hyfforddi ac asesu yn adlewyrchu anghenion y diwydiant	39%	44%	50%	<b>+14% o bwyntiau</b>
08	Cynnydd o ran amrywiaeth Rhyw ac Ethnigrwydd dechreuadau prentisiaeth yn y Sector Adeiladu, Cynllunio a'r Amgylchedd Adeiledig (Lloegr yn unig - o'r Cynllun Sector)	E 1,150 (5.2%) E 1,150 (5.2%)	S 1,225 (4.5%) E 1,225 (4.5%)	S 1,300 (4.3%) E 1,300 (4.3%)	<b>S +240 E +220</b>
09	Cynnydd o ran amrywiaeth Rhyw ac Ethnigrwydd dechreuadau prentisiaeth yn y Sector Adeiladu, Cynllunio a'r Amgylchedd Adeiledig (Lloegr yn unig - o'r Cynllun Sector)	50%	80%	80%	<b>+80% o bwyntiau</b>
10	Comisiynau cyllido wedi'u targedu at feysydd blaenoriaeth	70%	72%	74%	<b>+7% o bwyntiau</b>
11	Pwysigrwydd y system gyllido o ran cynnal lefel ac ansawdd yr hyfforddiant ar gyfer y Diwydiant	55%	58%	60%	<b>+7% o bwyntiau</b>
12	Mae CITB yn ffynhonnell wybodaeth ddibynadwy ac yn gwella ein henw da fel sefydliad a arweinir gan fewnwelediad	55%	60%	65%	<b>+15% o bwyntiau</b>